Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Aberconwy
## Morfa Drive
## Conwy
## LL32 8ED

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Aberconwy

Ysgol gyfun gymysg 11-18 cyfrwng Saesneg wedi'i lleoli yn nhref Conwy yw Ysgol Aberconwy. Mae 768 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 122 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 975 o ddisgyblion, gan gynnwys 181 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth, pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2012.

Mae un deg saith y cant o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru, sef tua 17% ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae llai na 2% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan ryw 18% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gan ychydig dros 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ddau ffigur hyn islaw cyfartaledd Cymru, sef 21.5% a 2% yn y drefn honno. Mae uned gymorth ar gyfer dyslecsia awdurdod lleol Conwy wedi'i lleoli yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn, Prydeinig. Ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 10% o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd ym mis Medi 2014. Ers hynny, mae'r pennaeth wedi ailstrwythuro'r uwch dîm arweinyddiaeth. Mae wedi ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau aelodau o'r tîm ac mae wedi penodi aelod ychwanegol o staff ar ei dîm hefyd. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys saith pennaeth cynorthwyol erbyn hyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Caiff ethos cynhwysol, cefnogol a meithringar Ysgol Aberconwy effaith fuddiol sylweddol ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mewn llawer o wersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Fodd bynnag, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 a chynnydd disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol wedi bod yn anghyson.

Mae llawer o gryfderau yn yr addysgu, ond mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn herio disgyblion yn ddigon da i gyflawni eu llawn botensial. Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir yn llwyddiannus i staff a rhieni ac maent wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd allweddol yng ngwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth ar bob lefel wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd a chysondeb yr addysgu ac o ran codi safonau.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella ansawdd yr addysgu ac effeithiolrwydd yr asesu

A3 Gwella effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ar bob lefel

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mewn llawer o wersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Fodd bynnag, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 a chynnydd disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol wedi bod yn anghyson.

Mewn llawer o wersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw gwaith blaenorol i gof yn gywir, ac mae llawer ohonynt yn cymhwyso hyn yn dda i sefyllfaoedd newydd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau perthnasol sy'n benodol i bwnc ac yn caffael dealltwriaeth gadarn o egwyddorion a materion allweddol. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall priodoleddau golau, yn esbonio onglau trawiad ac adlewyrchu ac yn disgrifio gwrthrychau anhydraidd. Mae rhai ohonynt yn gwneud cynnydd cryf iawn, er enghraifft wrth gymharu a dadansoddi effaith technegau awduron wrth astudio barddoniaeth y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau a'u barn yn hyderus y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau dosbarth neu grŵp. Er enghraifft, maent yn esbonio'n glir sut i ddatrys problemau gan ddefnyddio termau technegol priodol ac yn rhoi disgrifiadau ac esboniadau cywir o'u harbrofion mewn gwyddoniaeth. Mewn astudiaethau crefyddol, mae llawer o ddisgyblion yn esbonio'n feddylgar sut mae addysgu Bwdaidd yn dylanwadu ar ffyrdd pobl o fyw. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi atebion byr, annatblygedig i gwestiynau athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol i ddewis a dod o hyd i wybodaeth berthnasol, er enghraifft i ddilyn dalen rysait i wneud pizza neu esbonio natur ac effaith rhagfarn ac anoddefgarwch. Mae hyn yn eu helpu i ystyried a ffurfio barn am ddigwyddiadau hanesyddol fel y ffordd y cafodd yr Iddewon eu trin gan y Natsïaid, neu'r fasnach gaethweision. Mewn Saesneg, er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhesymu yn llwyddiannus i ddadansoddi nodweddion fel tôn ac arddull testunau llenyddol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cwblhau eu gwaith ysgrifenedig yn ddestlus, gan gymryd gofal a dangos balchder yn eu cyflwyniad. Maent yn ysgrifennu'n gymwys mewn ystod o arddulliau ac at ddibenion penodol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau perswadiol at eu haelod seneddol lleol yn amlinellu'n glir y dadleuon o blaid neu yn erbyn ymestyn chwarel yng Nghonwy. Mae llawer ohonynt yn llunio detholiadau dyddiadur empathig diddorol, gan ddefnyddio iaith ddisgrifiadol yn dda i greu effaith a dangos gwerthfawrogiad cadarn o themâu penodol fel profiadau caethwas. Mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion mwy abl yn llunio arfarniadau estynedig manwl o'u harbrofion, gan esbonio eu rhagdybiaethau cychwynnol, disgrifio'r arbrawf a llunio casgliadau rhesymedig. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae lleiafrif o ddisgyblion yn llunio atebion byr ac eithaf sylfaenol yn eu hysgrifennu. Nid yw'r disgyblion hyn yn datblygu eu syniadau nac yn esbonio eu barn yn llawn. Yn eu hysgrifennu ar draws y cwricwlwm, gwnânt gamgymeriadau rheolaidd yn eu sillafu, eu hatalnodi a'u strwythur brawddeg.

Pan fo'n briodol, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau rhifedd addas. Defnyddiant ddata yn gywir, er enghraifft i greu graffiau sy'n dangos sut mae cyfradd curiad y galon yn cynyddu yn ystod ymarfer corff neu'r modd y mae hyd gwifren yn effeithio ar y cerrynt neu'r foltedd. Mae disgyblion mwy abl yn dehongli graffiau a siartiau'n dda i lunio casgliadau ystyriol am y data. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn gwneud gormod o gamgymeriadau esgeulus wrth ymgymryd â thasgau rhifiadol arferol. Cânt anhawster yn cymhwyso cysyniadau mathemategol i ddatrys problemau bob dydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol yn eu gwersi TGCh, er nad ydynt yn defnyddio'r rhain yn helaeth ar draws y cwricwlwm. Maent yn creu dogfennau a thaenlenni ac yn llunio cyflwyniadau diddorol ac addysgiadol gan ddefnyddio trawsnewidiadau ac effeithiau yn ddychmygus i ennyn diddordeb y gynulleidfa. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda, er enghraifft wrth ddylunio a chynhyrchu eu robot pren eu hunain ym Mlwyddyn 7 gan ddefnyddio torrwr laser.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi bod yn anghyson yn y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2017, bu gwelliant mewn perfformiad yn y dangosydd hwn ac mae'n cyd-fynd yn fras â'r hyn a geir mewn ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi cyd-fynd yn fras â lefelau mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A*/A mewn TGAU neu gyfwerth wedi bod yn gyson islaw'r cyfrannau mewn ysgolion tebyg am y pedair blynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2017, bu gwelliant ym mherfformiad bechgyn a merched mewn tua hanner y dangosyddion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad bechgyn a merched mewn llawer o ddangosyddion wedi bod islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg. Yn 2017, bu gostyngiad ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn llawer o ddangosyddion. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar gyfer y disgyblion hyn uwchlaw perfformiad y disgyblion mewn ysgolion tebyg ar y cyfan ym mwyafrif y dangosyddion. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u targedau personol. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn dangos medrau dysgu annibynnol effeithiol. Gwnânt gynnydd da, er enghraifft wrth ddadansoddi ffynonellau hanesyddol cymhleth neu wrth gymhwyso eu dealltwriaeth o briodoleddau fectorau i ddatrys problemau penodol. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y chweched dosbarth wedi amrywio. Mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3 wedi cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, yn unol â chanran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A*/A. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi bod yn gyson islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg.

Ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf, mae bron pob un o'r disgyblion wedi cofrestru ar gyfer y cwrs llawn TGAU mewn Cymraeg ail iaith, gyda llawer ohonynt yn cyflawni gradd C neu'n well. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol

o ran datblygu eu medrau Cymraeg, yn enwedig eu dealltwriaeth o'r iaith lafar. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrannu'n dda at drafodaethau grŵp ac yn ysgrifennu gyda chywirdeb technegol priodol at ystod o ddibenion. Mae rhai disgyblion yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn dda ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol, sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr, yn llwyddiannus o ran hyrwyddo lefelau uchel o les disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn ymdawelu'n gyflym, ac yn gwrando'n astud ar esboniadau athrawon a safbwyntiau eu cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn cymhwyso eu hunain yn bwrpasol i amrywiaeth o dasgau. Mewn technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dewis cynnyrch penodol i'w ddylunio a'i greu, fel clustog neu ddarn o emwaith. Dangosant falchder yn eu gwaith, er enghraifft trwy dynnu lluniau o'r cynnyrch gorffenedig.

Gall llawer o ddisgyblion weithio'n annibynnol am gyfnodau hir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn parau, grwpiau bach ac mewn lleoliadau dosbarth cyfan, gan gefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol. Mae llawer ohonynt yn mwynhau esbonio eu barn bersonol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau neu baratoi areithiau am destun penodol. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud gwaith ymchwil annibynnol gwerthfawr, er enghraifft i ddeall strwythur a chysyniad Cofeb yr Holocost ym Merlin. Mae rhai disgyblion yn gofyn cwestiynau meddylgar a gwybodus, er enghraifft wrth ystyried dibynadwyedd testunau Beiblaidd. Nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio'n ddigon da a thynnir eu sylw yn rhy hawdd. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu gwersi.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach, er enghraifft trwy fwyta diet maethlon a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan weithredol yn ystod eang yr ysgol o glybiau chwaraeon allgyrsiol a gweithgareddau hamdden fel gymnasteg, osgoi'r bêl, trampolinio a rygbi tag. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gymryd rhan yn rhaglen werthfawr yr ysgol o weithgareddau diwylliannol a chreadigol, gan gynnwys cynyrchiadau cerddorol a drama.

Pan fydd cyfleoedd yn codi, mae disgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain yn frwdfrydig. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cyfraniad hynod werthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae llysgenhadon chwaraeon yn trefnu ac arwain amrywiaeth fuddiol o weithgareddau chwaraeon ar gyfer eu cyd-ddisgyblion. Mae mentoriaid y chweched dosbarth yn helpu disgyblion iau i wella eu medrau darllen.

Mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy ddechrau ailddylunio ac adnewyddu'r toiledau a thrwy sicrhau cyllid i brynu a

gosod dau ddiffibriliwr ar y safle.  Mae wedi cael rôl weithredol hefyd o ran dylanwadu ar bolisïau ymddygiad, codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cydraddoldeb o ran rhywedd ac ailgynllunio cynnwys cynllunwyr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus.  Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at godi symiau sylweddol o arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol, fel Make Some Noise a Plant mewn Angen.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y gymuned leol ac yn ehangach.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwelliant**

Er bod llawer o gryfderau yn yr addysgu, at ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwelliant.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac maent yn fodelau rôl effeithiol o ran iaith.  Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn esbonio cysyniadau'n dda ac yn datblygu perthnasoedd gweithio cefnogol gyda'r disgyblion sy'n creu amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi'n dda, gydag amcanion dysgu clir sy'n cynnwys datblygu ystod o fedrau yn ogystal ag ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol disgyblion.  Mewn rhai achosion, mae athrawon yn paratoi tasgau ysgogol a difyr sy'n dal dychymyg disgyblion ac yn eu hysbrydoli i ymestyn eu dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn gwneud defnydd da o holi i sefydlu cysylltiadau â dysgu blaenorol disgyblion a'u helpu i ddeall cysyniadau a medrau newydd.  Mae rhai athrawon yn defnyddio holi treiddgar i annog disgyblion i feddwl yn fanylach i gyfiawnhau eu safbwyntiau.  Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall, er enghraifft, sut a pham y caiff cynhyrchion fel glwten eu prosesu ym maes cynhyrchu bwyd.  Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion sy'n eu galluogi i wneud cynnydd cryf yn eu dysgu.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ymestyn dealltwriaeth ddyfnach disgyblion o'r agweddau a gyflwynwyd neu ddatblygu medrau perthnasol ar lefel uwch.  Mewn rhai achosion, nid yw athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau'n gweddu'n ddigon da i alluoedd disgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n fwy abl, nac yn adeiladu'n ddigon da ar eu dysgu blaenorol.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar buddiol a chefnogol i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i wneud cynnydd addas.  Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol sy'n rhoi cyngor clir i ddisgyblion ar sut gallant wella eu gwaith.  Mae rhai athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig hynod werthfawr sy'n rhoi cyfarwyddyd i ddisgyblion fyfyrio ar ansawdd eu gwaith neu wneud gwelliannau penodol.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud gwelliannau uniongyrchol a buddiol i'w gwaith.  Er enghraifft, mewn Saesneg, mae disgyblion yn disgrifio effaith dewis iaith awdur yn fwy dadansoddol.  Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw sylwadau ysgrifenedig athrawon yn dangos yn ddigon clir beth mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella ansawdd eu gwaith.  At ei gilydd, mae rhai athrawon yn sicrhau bod disgyblion wedi gwneud gwelliannau addas i'w gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbws sy'n adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Ym Mlwyddyn 7, yn ogystal â'r pynciau craidd, mae'r ysgol yn darparu profiadau difyr i ddisgyblion trwy brosiectau sy'n datblygu eu medrau. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gymwysterau academaidd a galwedigaethol trwy bartneriaethau llwyddiannus gyda choleg cyfagos a sefydliadau chweched dosbarth eraill yn yr awdurdod lleol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu'r ysgol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda ac yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu medrau cyflogadwyedd a medrau bywyd pwysig. Ceir ystod eang o weithgareddau chwaraeon, creadigol a diwylliannol sy'n cefnogi dysgu disgyblion ac yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad personol.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas sy'n helpu disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan i wneud cynnydd cadarn o ran datblygu'r medrau hyn. Ym mhob cyfnod allweddol, rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau siarad a meddwl. Mewn llawer o feysydd pwnc, mae cyfleoedd wedi'u cynllunio'n briodol i ddisgyblion ymgymryd ag ystod ddefnyddiol o dasgau ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad o ran pa mor effeithiol y mae pynciau ar draws y cwricwlwm yn datblygu gallu disgyblion i lunio atebion ysgrifenedig strwythuredig. Mae cyfleoedd priodol yn rhai o feysydd y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, ond nid yw'r agwedd hon ar waith yr ysgol wedi'i sefydlu'n dda.

Mewn rhai meysydd pwnc, caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddefnyddio TGCh. At ei gilydd, megis dechrau y mae'r cynllunio i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Ceir dull cydlynus o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith yn gryf yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gynnal a datblygu eu medrau iaith trwy ddilyn cwrs Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 4. Mewn gwersi technoleg, mae rhai disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gwblhau eu gwaith prosiect a thrafod eu syniadau.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cymuned gynhwysol, gefnogol a meithringar yn llwyddiannus, sydd wedi cael effaith fuddiol sylweddol ar les a datblygiad personol disgyblion.

Mae newidiadau diweddar i drefniadau bugeiliol yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo lles disgyblion. Mae penaethiaid blwyddyn a mentoriaid blwyddyn yn gweithio'n agos gyda thiwtoriaid dosbarth i ddarparu cymorth bugeiliol ac academaidd buddiol ar gyfer disgyblion.

Mae trefniadau trylwyr a systematig i fonitro cynnydd academaidd a lles disgyblion a nodi'r disgyblion hynny sydd angen cymorth penodol. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o strategaethau mentora ac ymyrraeth perthnasol i helpu bodloni anghenion y disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am bob agwedd ar gynnydd eu plant. Mae'n gweithio'n agos â rhieni i fynd i'r afael â'r materion hynny a allai fod yn effeithio ar ddysgu eu plentyn a helpu rhieni i ddarparu pa gymorth bynnag y gallant

ei ddarparu.  Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag ystod o asiantaethau allanol fel seicolegwyr addysg, timau iechyd meddwl a chwnselwyr sy'n cynnig cymorth arbenigol gwerthfawr i ddisgyblion unigol.  Mae'r partneriaethau hyn a mentrau penodol fel cynlluniau cymorth buddiol yn cael effaith gadarnhaol ar wella ymddygiad a phresenoldeb disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol, er enghraifft trwy wasanaethau, cyfnodau tiwtor, siaradwyr gwadd a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol addas.  Mae'r rhaglen hon yn helpu disgyblion i fyw bywydau corfforol ac emosiynol iach.  Ceir trefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae'r ysgol yn darparu arweiniad a chyngor defnyddiol a diduedd i ddisgyblion o ran opsiynau pwnc a dewisiadau gyrfa yn y dyfodol.  Mae'r dulliau hyn yn cynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol, ac yn eu paratoi ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau yn eu bywyd fel oedolyn.

Mae system fewnol yr ysgol yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad moesol a moesegol disgyblion, er enghraifft trwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol gwerthfawr a chodi arian i brynu diffibrilwyr ar gyfer yr ysgol a'r gymuned leol.  Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.  Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a hamdden, yn ogystal â pherfformiadau cerddorol a dramatig, sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion.

Mae darparu cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn yn gryfder gan yr ysgol.  Mae gan ddisgyblion rôl werthfawr ym mywyd a gwaith yr ysgol.  Er enghraifft, mae pwyllgor gwrthfwlio'r disgyblion wedi gweithio'n dda gyda'r ysgol i fireinio polisïau sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o fentrau i gefnogi lles plant sy'n agored i niwed, a'r cyfle iddynt elwa ar y cwricwlwm.  Mae canolfan 'ABCD' (dyslecsia), canolfan gynhwysiant 'Hafan' a grŵp cofrestru 'Pontio' ar gyfer disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn cynorthwyo grwpiau o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i ymgysylltu â'u dysgu yn llwyddiannus.  Mae grŵp anogaeth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed ym Mlwyddyn 7 yn helpu'r disgyblion hyn i ymgynefino â'u hysgol newydd ac yn sicrhau bod anghenion penodol disgyblion unigol yn cael eu bodloni'n effeithiol.

Mae staff yn darparu ystod eang o gymorth personoledig cynlluniedig ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae proffiliau disgyblion defnyddiol yn galluogi athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu i fodloni anghenion y disgyblion hyn yn effeithiol.  Caiff cynnydd disgyblion o ran bodloni eu targedau personol ei olrhain yn ofalus.  Mae mentrau penodol yn cynnwys rhaglenni dal i fyny â llythrennedd a rhifedd, y cymorth 'cyfaill mathemateg' a ddarperir gan lysgenhadon y chweched dosbarth a'r rhaglen 'Cyfaill' sy'n helpu disgyblion ifanc i ddatblygu eu hunanhyder trwy ddarllen storïau i gi.

Mae trefniadau diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd a chysondeb yr addysgu ac o ran codi safonau.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir, gefnogol a phendant sy'n cyfrannu'n dda at wella agweddau allweddol ar waith yr ysgol. Yn benodol, mae wedi cymryd camau addas i gryfhau cyfathrebu, gwella morâl staff, cyflwyno mentrau cwricwlwm buddiol a sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd mwy trylwyr. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac maent wedi hyrwyddo gweledigaeth glir yn llwyddiannus ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar y genhadaeth 'ysbrydoli, cefnogi a llwyddo' – 'inspire, support and succeed'.

Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi ailstrwythuro'r uwch dîm arweinyddiaeth ac wedi sicrhau bod gan bob aelod o'r tîm rolau a chyfrifoldebau clir. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn briodol ac wedi'u dosbarthu'n deg ymhlith yr uwch dîm. Caiff cyfrifoldebau rheolwyr llinell a lefelau atebolrwydd eu deall yn dda gan staff a rheolwyr.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn ymgymryd â'u rolau rheoli yn effeithlon ac yn deall eu cyfrifoldebau ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a chodi safonau. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd arweinwyr canol o ran sicrhau safonau uchel a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu meysydd cyfrifoldeb yn amrywio gormod.

Mae llywodraethwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'r ysgol a lles a chynnydd pob un o'r disgyblion. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol a chryfderau a gwendidau pynciau unigol, er enghraifft trwy eu gweithgareddau llywodraethwyr cyswllt. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni cydbwysedd priodol rhwng cefnogi'r ysgol a herio arweinwyr, lle bo'n briodol, ar agweddau ar berfformiad.

Mae gan yr ysgol gylch systematig o weithgareddau sicrhau ansawdd sy'n cwmpasu holl feysydd ei gwaith. Mae gweithgareddau hunanarfarnu yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion, ac maent yn rhoi ystyriaeth addas i safbwyntiau disgyblion, rhieni a staff. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cynnal archwiliadau addysgu a dysgu ac adolygiadau o berfformiad mewn arholiadau ar gyfer pob maes pwnc, sy'n drylwyr a chadarn ar y cyfan. Mae gan lywodraethwyr cyswllt ran werth chweil yn yr adolygiadau perfformiad hyn.

Mae gan yr ysgol ymwybyddiaeth gywir a realistig o'i chryfderau allweddol a'r rhan fwyaf o feysydd i'w datblygu. Caiff yr adroddiad hunanarfarnu ei adolygu'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn i ddarparu arfarniad cyfoes o berfformiad presennol. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, nid yw'r ysgol yn nodi'n ddigon clir y materion y mae angen eu gwella, fel defnyddio'r cyfnod tiwtor yn effeithiol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys ystod eang o fentrau perthnasol sy'n mynd i'r afael yn dda â blaenoriaethau cenedlaethol a'r rheiny a nodwyd trwy weithgareddau hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys amcanion clir, targedau uchelgeisiol addas a cherrig milltir perfformiad defnyddiol. Mae ansawdd arfarniadau a chynlluniau datblygu adrannol yn amrywio gormod. Mewn rhai achosion, mae arfarniadau o berfformiad mewn meysydd pwnc yn rhy hael. Yn ychwanegol, nid yw'r dogfennau hyn yn ddigon trylwyr o ran arfarnu effeithiolrwydd ac effaith yr addysgu a'r asesu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn darparu cymorth a her briodol i helpu staff i gynnal a gwella eu perfformiad. Mae pob un o'r staff addysgu yn cymryd rhan mewn ystod ddefnyddiol a gwerthfawr o gymunedau dysgu proffesiynol. Mae ymarferwyr arweiniol yn rhoi cymorth defnyddiol i gydweithwyr sy'n dechrau helpu gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r rheolwr busnes, y pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus. Defnyddiant y cyllid sydd ar gael yn briodol i gyflawni blaenoriaethau strategol yr ysgol. Gyda'i gilydd, maent wedi nodi effeithlonrwydd ariannol i sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau tymor byr ochr yn ochr ag anghenion tymor hwy disgyblion a'r gymuned leol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod costau rhaglenni presennol, gan gynnwys darpariaeth y chweched dosbarth, ac yn adolygu hyfywedd y rhaglenni hyn yn aml i wneud yn siŵr eu bod yn gost-effeithiol.

Mae lefel y staffio ac arbenigedd athrawon a staff cymorth yn briodol i gyflwyno cwricwlwm yr ysgol. Defnyddir staff yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ac mewn meysydd arbenigol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol i ddarparu cymorth ac ymyriadau targedig ar gyfer disgyblion a nodwyd. O ganlyniad, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyd-fynd yn fras â'r rheiny mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion perfformiad allweddol.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd pleserus a chroesawgar sy'n cael ei gynnal yn dda ac yn cefnogi lles a dysgu disgyblion yn dda. Mae adnoddau da mewn ardaloedd arbenigol, fel labordai gwyddoniaeth a gweithdai technoleg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2018